# Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

## Cofnodion (CC(3)-13-09)

**Dyddiad: 07 Hydref 2009**
**Amser: 09.30 – 11.05**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**
**Janice Gregory, Ogwr (Cadeirydd)**
Eleanor Burnham, Gogledd Cymru
Lesley Griffiths, Wrecsam
Mark Isherwood, Gogledd Cymru
Bethan Jenkins, Gorllewin De Cymru
Dai Lloyd, Gorllewin De Cymru
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

Tom Jackson, Clerc
Annette Millett, Dirprwy Glerc

**Eraill yn bresennol**
Dr Samantha Clutton, Uwch Swyddog Ymchwil a Pholisi, yr Uned Polisi, Ymchwil a Datblygiad, Barnardos Cymru
Andy James, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Polisi
Mary Duff, Cadeirydd Pwyllgor Llysoedd Ieuenctid Cymdeithas yr Ynadon
David Ford, Cadeirydd Panel Llys Ieuenctid Caerdydd

**1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon**

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Alun Cairns a Lynne Neagle.

**2: Ymchwiliad i gyfiawnder ieuenctid**

Tystiolaeth gan:

**Barnardos Cymru**
**CC(3)-13-09 : Papur 1**

Bu Dr Samantha Clutton ac Andy James yn ateb cwestiynau'r Pwyllgor.

**Camau i'w cymryd**

Bydd y tystion yn anfon argymhellion at y Pwyllgor ynghylch sut y gellid mynd i'r afael â masnachu mewn plant a phobl ifanc a chamfanteisio'n rhywiol ar blant a phobl ifanc.

Ar 19 Hydref, bydd Barnardos yn cyhoeddi'r cyntaf mewn cyfres o dri adroddiad ar weithio gyda phlant sydd â'u rhieni'n droseddwyr. Bydd y tystion yn rhoi copïau o'r adroddiadau hyn i'r Pwyllgor.

Bydd Barnardos yn ysgrifennu at y Pwyllgor gydag unrhyw argymhellion eraill.

Diolchodd y Cadeirydd i Dr Samantha Clutton ac Andy James am ddod i'r cyfarfod ac am gyflwyno'r dystiolaeth ysgrifenedig ymlaen llaw.

**Cymdeithas yr Ynadon**

CC(3)-13-09 : Papur 2

Bu Mary Duff a David Ford yn ymateb i gwestiynau gan y Pwyllgor.

**Camau i'w cymryd**

Bydd y tystion yn rhoi ffigurau i'r Pwyllgor ynghylch nifer y dedfrydau o gyfnodau dan glo a mathau eraill o ddedfrydau a roddir i blant a phobl ifanc sy'n torri'r gyfraith.

Bydd y tystion yn trafod â Chadeirydd Llys Ynadon Merthyr, gyda'r nod o ddarparu gohebiaeth ynghylch patrymau dedfrydu ym Merthyr i'r Pwyllgor.

Bydd y tystion yn anfon copi o'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ynghylch hyfforddi staff sy'n gweithio gyda phobl ifanc sydd dan glo.

Bydd y tystion yn anfon copi caled o Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan at y Pwyllgor.

Bydd y tystion yn ysgrifennu at y Pwyllgor gydag unrhyw argymhellion posibl eraill.

Diolchodd y Cadeirydd i Mary Duff a David Ford am ddod i'r cyfarfod ac am gyflwyno'r dystiolaeth ysgrifenedig ymlaen llaw.

**Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Medi 2009.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Hydref 2009**